***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 58. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 23

## DIWYGIADAU I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

58 Yn lle adrannau 157 a 158 rhodder—

### “157 Llog taliadau hwyr ar drethi datganoledig

(1) Mae’r adran hon yn gymwys i swm o dreth ddatganoledig—

(a) sydd wedi ei ddatgan mewn ffurflen dreth fel—

(i) y dreth sydd i’w chodi, neu

(ii) os yw’r ffurflen dreth yn ffurflen dreth bellach a wneir gan y prynwr mewn trafodiad tir, y dreth trafodiadau tir (neu’r dreth trafodiadau tir ychwanegol) sy’n daladwy;

(b) sy’n daladwy—

(i) o ganlyniad i ddiwygiad i ffurflen dreth o dan adran 41, 45 neu 50;

(ii) o ganlyniad i gywiriad i ffurflen dreth o dan adran 42;

(iii) yn unol ag asesiad a wnaed yn ychwanegol at ffurflen dreth o dan adran 54 neu 55, neu

(c) sy’n daladwy yn unol ag—

(i) dyfarniad o dan adran 52, neu

(ii) asesiad o dan adran 54 neu 55,

a wnaed yn lle ffurflen dreth yr oedd yn ofynnol ei dychwelyd.

(2) Os na chaiff y swm ei dalu cyn dyddiad dechrau’r llog taliadau hwyr, mae’r swm yn dwyn llog (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel “llog taliadau hwyr”) ar y gyfradd llog taliadau hwyr ar gyfer y cyfnod—

(a) sy’n dechrau â dyddiad dechrau’r llog taliadau hwyr, a

(b) sy’n dod i ben â’r dyddiad talu.

(3) Dyddiad dechrau’r llog taliadau hwyr yw—

(a) yn achos swm sydd o fewn is-adran (1)(a) neu (b), y dyddiad ar ôl dyddiad ffeilio’r ffurflen dreth;

(b) yn achos swm sydd o fewn is-adran (1)(c), y dyddiad ar ôl dyddiad ffeilio’r ffurflen dreth yr oedd yn ofynnol ei dychwelyd.

(4) Ond pan fo adran 160 yn gymwys, dyddiad dechrau’r llog taliadau hwyr yw’r dyddiad a bennir yn yr adran honno.

### 157A Llog taliadau hwyr ar gosbau

(1) Mae’r adran hon yn gymwys i swm o gosb y mae’n ofynnol ei dalu o dan Ran 5 o’r Ddeddf hon.

(2) Os na thelir y swm ar y dyddiad y mae’n ofynnol ei dalu neu cyn hynny, mae’r swm yn dwyn llog (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel “llog taliadau hwyr”) ar y gyfradd llog taliadau hwyr ar gyfer y cyfnod—

(a) sy’n dechrau â’r diwrnod canlynol, a

(b) sy’n dod i ben â’r dyddiad talu.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 58. (See end of Document for details)*

(3) Ond pan fo adran 160 yn gymwys, dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr yw'r dyddiad a bennir yn yr adran honno.

**158 Llog taliadau hwyr: atodol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion adrannau 157 a 157A.

(2) Nid yw llog taliadau hwyr yn daladwy ar log taliadau hwyr.

(3) Caiff dyddiad dechrau llog taliadau hwyr fod yn ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod busnes o fewn ystyr adran 92 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882 (p. 61).

(4) Mae'r dyddiad talu, mewn perthynas â swm, yn cynnwys y dyddiad y caiff y swm ei osod yn erbyn swm sy'n daladwy gan ACC.

(5) Mae i "cyfradd llog taliadau hwyr" yr ystyr a roddir gan adran 163(1)."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 23 para. 58 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** Atod. 23 para. 58 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 2(b)(ii)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Paragraff 58.